# LLEOEDD CHWAREUS

## SYNIADAU I WNEUD LLEOEDD YN FWY CHWAREUS

### CHWARAEWCH GYDA'R TYWYDD
Defnyddiwch y tywydd fel peth chwarae: sblasiwch mewn pwdeli, hedfanwch farcud, cwrsiwch gysgodion

Dewch i archwilio'r byd naturiol o'ch cwmpas, beth allwch chi ei ddarganfod?

Gallwch gadw cofnod o'r holl bethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw

### LLUNIAU PALMANT
Sut allwch chi ddefnyddio sialc neu ddeunyddiau naturiol i wneud y lle rydych chi ynddo yn fwy chwareus?

### ANELWCH AM YR ENTRYCHION
Beth allwch chi ei weld yn siapiau'r cymylau?

### LLIWIAU'R ENFYS
Faint o wahanol liwiau allwch chi eu gweld lle rydych chi?

### STRYDOEDD CHWAREUS
Meddyliwch am y stryd rydych chi'n byw ynddi, a yw hi'n chwareus? Beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell i chwarae? Cynlluniwch stryd ddelfrydol i chwarae ynddi.

### CREU CERDDORIAETH
Pa synau allwch chi glywed lle rydych chi? Beth allwch chi ei ddefnyddio i greu eich cerddoriaeth eich hun?


### MYND AM DRO GYDA'CH SYNHWYRAU
Ewch am dro yn eich ardal, beth allwch chi ei weld, ei glywed, ei arogli, ei gyffwrdd a'i flasu?

# LLWYBRAU CHWAREUS

## SYNIADAU I WNEUD LLEOEDD YN FWY CHWAREUS

### TEITHIAU CHWAREUS

Cofnodwch y gwahanol deithiau chwarae rydych chi'n eu gwneud: ble rydych chi'n mynd, sut ydych chi'n cyrraedd yno, beth ydych chi'n ei weld ar hyd y ffordd?



Dewch i archwilio'r byd naturiol o'ch cwmpas, beth allwch chi ei ddarganfod?



Gallwch gadw cofnod o'r holl bethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw

### AR EICH TAITH

Teithiwch i le bynnag rydych chi'n mynd mewn cymaint o ffyrdd chwareus ag y gallwch chi. Cerddwch yn dal fel coeden, rholiwch fel boncyff, neu rhedwch fel deilen yn chwythu yn y gwynt!



### DILYN YR ARWEINYDD

Ewch â'ch partner (yn gwisgo mwgwd dros ei lygaid) at goeden o'ch dewis.

Gadewch iddyn nhw archwilio'r goeden, gan ddefnyddio eu holl synhwyrau eraill.


Ewch â nhw i ffwrdd o'r goeden gan ddilyn llwybr newydd.

Tynnwch y mwgwd.

Ydyn nhw'n gallu gweithio allan pa goeden oedd hi?



### MAE X YN NODI'R FAN



Gallwch lunio map, gyda chliwiau ar y ffordd a defnyddio eich elfennau naturiol i'w helpu i ddod o hyd i'r trysor!

### EWCH AR GOLL YNGHANOL BYD NATUR

Crëwch lwybr gan ddefnyddio deunyddiau naturiol rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw wrth i chi archwilio. Allwch chi ffeindio'ch ffordd yn ôl i'r man lle dechreuoch chi?

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@valeplayteam

Vale Sports & Play
Chwaraeon a Chwarae Y Fro

# OLION CHWAREUS

## SYNIADAU I WNEUD LLEOEDD YN FWY CHWAREUS

### OLION MWDLYD

Gadewch eich olion eich hun yn y mwd. Allwch chi addurno coeden gyda'ch olion?

Dewch i archwilio'r byd naturiol o'ch cwmpas, beth allwch chi ei ddarganfod?

Gallwch gadw cofnod o'r holl bethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw

### SAFFARI RHYWOGAETHAU

Edrychwch i fyny, edrychwch i lawr, edrychwch o gwmpas. Faint o wahanol olion traed anifeiliaid allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Gwnewch eich ôl troed anifail eich hun i rywun arall ddod o hyd iddo!

### RHOWCH GYNNIG AR HAPA-ZOME

Y dechneg Siapaneaidd o wasgu blodau a dail i mewn i ffabrig. Rhowch eich dyluniad rhwng dau ddarn o frethyn, a defnyddiwch garreg i daro'r ffabrig a rhyddhau'r lliw naturiol!

### RHISGL RHYFEDDOL



Gwnewch rwbiadau o risgl coed gwahanol. Sut mae pob un yn wahanol? Cymysgwch nhw - allwch chi baru'r rhisgl i'r goeden gywir?

### FFRAMIAU NATUR

Gwnewch ffrâm gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu eitemau a welwch yn y byd naturiol o'ch cwmpas. Gall y ffrâm fod o unrhyw siâp neu faint. Defnyddiwch eich ffrâm i greu eich gwaith celf eich hun: daliwch y ffrâm i fyny neu ei gosod ar y llawr. Pa gelf anhygoel all ddod yn fyw yn eich ffrâm?

# PARCIAU CHWAREUS

## SYNIADAU I WNEUD LLEOEDD YN FWY CHWAREUS

### BETH ALLWCH CHI EI GLYWED?

Mwynhewch y tawelwch am funud. Gallai cau eich llygaid helpu. Teimlwch y byd naturiol o'ch cwmpas wrth i chi anadlu i mewn ac allan.

Dewch i archwilio'r byd naturiol o'ch cwmpas, beth allwch chi ei ddarganfod?

Gallwch gadw cofnod o'r holl bethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw

### FAINT O FLODAU, COED A PHLANHIGION ALLWCH CHI EU HENWI?

### CERDDED YN Y PARC

SGANIWCH FI

Cymerwch olwg ar ein Teithiau Helfa Drysor i deuluoedd a chwrdd â Wil y Wiwer!

### GWNEWCH GADWYN FLODAU

Dewch o hyd i ddarn o dir lle mae llawer o lygaid y dydd, dewiswch eich ffefrynnau a defnyddiwch ewin eich bawd i wneud hollt i fyny coesyn pob blodyn, clymu'r blodau gyda'i gilydd a gweld pa mor hir allwch chi wneud eich cadwyn!

### BETH YW'R BRIGAU

Dewch o hyd i frigyn a'i droi'n wahanol bethau... Ffon hud? Den? Mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd!

### CERFLUNIAU CERRIG

Crëwch gerflun gan ddefnyddio gwahanol eitemau yn y parc a'i adael i eraill ei edmygu!

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@valeplayteam

Vale Sports & Play
Chwaraeon a Chwarae Y Fro

# BINGO CHWAREUS

## SYNIADAU I WNEUD LLEOEDD YN FWY CHWAREUS

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefnwch eich Gemau Olympaidd Bach eich hun e.e. rhedeg, taflu maen (pêl tennis), disgen plât papur, gwaywffyn brigau. | Peintiwch eich wyneb | Gwnewch set ddrymiau o botiau o wahanol feintiau yn eich ailgylchu. Llenwch nhw gyda gwahanol faint o ddŵr a chlywch y synau gwahanol maen nhw'n eu gwneud. | Gwnewch gegin y tu allan a chreu ryseitiau fel cawl glaswellt, stiw cerrig neu bersawr petalau. | Gwnewch gartref i un o'ch teganau gan ddefnyddio deunyddiau ailgylchu - gallai fod yn dŷ tref tedi neu'n lolfa lindysyn. | Gwnewch awyrennau papur a chreu rhedfa i weld pa un sy'n mynd bellaf! |
| Chwaraewch bêl foli gan ddefnyddio balŵn neu cyfrwch sawl gwaith y gallwch chi daro'r balŵn i'r awyr heb iddo gyffwrdd â'r llawr | Lluniwch restr o weithredoedd ar gyfer pob llythyren yn yr wyddor. Sillafwch eich enw a pherfformio'r gweithgaredd ar gyfer pob llythyren | Adeiladwch guddfan dan do | Dewch o hyd i goeden a'i dringo | Tyfwch flodau neu lysiau mewn potiau cartref o boteli plastig neu diwbiau cardfwrdd | Treuliwch brynhawn yn adrodd straeon - crëwch stori amdanoch chi |
| Mewn lle clir, rhowch lawer o wrthrychau ar y llawr (e.e. sanau). Caewch eich llygaid. Rhaid i berson arall eich tywys trwy'r ffrwydron heb i chi gyffwrdd ag unrhyw beth | Dyluniwch helfa drysor drwy greu eich cliwiau dy hun a heriwch eich teulu i ddod o hyd i'r trysor | Chwaraewch Siarâds | Crëwch eich cwrs hopsgotsh eich hun gan gynnwys gweithredoedd gwahanol ar gyfer pob rhif rydych chi'n glanio arno. | Beth am frwydr dŵr? | Crëwch eich gêm bowlio 10 eich hun. Cadwch boteli gwag i'w defnyddio fel pinnau wedyn tarwch nhw i lawr gyda phêl neu fwndel o sanau wedi'u rholio'n belen |

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@valeplayteam

Vale Sports & Play
Chwaraeon a Chwarae Y Fro